Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trawsnewid Digidol

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mai 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.



## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn info@audit.wales

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 25 |
| Atodiadau | 28 |
| 1 Ymateb y rheolwyr | 29 |
| 2 Ynglŷn â'n gwaith | 38 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae dull trawsnewid digidol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys o gymorth i wella gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau digidol. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y mae'r sefydliad yn rheoli risgiau mewn perthynas â seilwaith digidol, seibergadernid a Deallusrwydd Artiffisial (AI).

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae technoleg ddigidol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer llawer o'r nodau yn Cymru Iachach. Mae'r cynllun hwnnw'n dweud y bydd technolegau a dulliau digidol newydd yn rhan bwysig o'r drefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal yn y dyfodol.

3 Fodd bynnag, mae cyflawni trawsnewid digidol yn gryn her. Mae'n galw am fuddsoddiad, y seilwaith cywir, ac ymgysylltu â staff a'u hyfforddi. Mae angen i systemau gyfathrebu gyda'i gilydd a rhaid i sefydliadau reoli risgiau bythol gynyddol mewn perthynas â seibergadernid.

4 Nid oes a wnelo trawsnewid digidol â thechnoleg yn unig. Mae a wnelo â diwylliant ac arweinyddiaeth. Mae gan fyrddau cyrff y GIG rôl allweddol o ran cymeradwyo a pherchnogi strategaeth ddigidol y sefydliad. Mae ar fyrddau angen sicrwydd hefyd bod trawsnewid digidol yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn effeithiol, a bod buddsoddiad yn sicrhau'r manteision bwriadedig.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

5 Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Strategol Digidol eglur sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac sydd o gymorth i wella gwasanaethau yn yr hirdymor. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu ar gyfer trawsnewid digidol, ac mae rhaglen strwythuredig o brosiectau digidol yn ei lle. Fodd bynnag, mae gwendidau mewn trefniadau cynllunio ariannol, gwireddu manteision, ac adrodd am sicrwydd yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd i ddeall cynnydd, risgiau ac effaith yn llawn. Er bod y seilwaith digidol a rheolaethau seiber wedi gwella, mae sicrwydd ynghylch cydnerthedd hirdymor yn dal i fod yn gyfyngedig, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio cyfalaf, systemau etifeddol, ac adfer ar ôl trychineb.

6 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod potensial AI, mae trefniadau llywodraethu'n dal i fod heb ddatblygu digon. Mae'r Fframwaith Strategol Digidol yn pennu uchelgeisiau lefel uchel ond yn brin o eglurder ynghylch gweithredu, darparu adnoddau, rheoli risg, a goruchwyliaeth. Ar yr un pryd, nid oes gan y sefydliad ddealltwriaeth gynhwysfawr am ei sgiliau digidol a chapasiti ei weithlu eto, gyda defnydd isel o offer hunanasesu, dim cynllun hyfforddiant cydgysylltiedig, a dibyniaeth ar niferoedd bychain o arbenigwyr yn creu risgiau i gadernid.

7 Mae ymgysylltu â staff a defnyddwyr gwasanaethau wedi ategu rhai datblygiadau digidol cadarnhaol, ond mae dulliau'n anghyson ac nid oes iddynt strwythur ffurfiol, gan gynnwys diffyg cynllun ymgysylltu neu gynhwysiant digidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd yn canlyn arni ag ystod o fentrau digidol ac yn dangos ymrwymiad i drawsnewid. Fodd bynnag, mae bylchau mewn rheoli risg yn strategol, cynllunio'r gweithlu, gwireddu manteision, a chynllunio ar gyfer buddsoddi hirdymor yn gwanhau sicrwydd y bydd buddsoddi mewn digidol yn gyson yn dwyn gwelliannau parhaus yn ansawdd, effeithlonrwydd a hygyrchedd gwasanaethau.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

8 Rydym wedi cyflwyno saith argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd:

- cryfhau'r Map Trywydd Digidol fel bod cynnydd, perchnogaeth a deilliannau'n gallu cael eu tracio'n eglur;
- adnabod yn glir ar y Gofrestr Risgiau Strategol beth yw'r risgiau i drawsnewid digidol i ategu goruchwyliaeth wybodus gan y Bwrdd;
- cynhyrchu cynllun blynyddol i gydymffurfio â'r Fframwaith Asesu Seiber dan Reoliadau Gwasanaethau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018;
- cryfhau ei drefniadau cynllunio, rheoli risg a llywodraethu ar gyfer defnyddio AI yn ddiogel;
- defnyddio dull mwy strwythuredig o asesu a datblygu sgiliau digidol ar draws y gweithlu a thimau digidol;
- neilltuo arweinyddiaeth glir ar gyfer cynhwysiant digidol a'i gwreiddio'n gyson ar draws pob prosiect digidol; a
- chyflwyno adolygiadau cyson ar ôl gweithredu i gadarnhau bod prosiectau digidol yn dwyn eu manteision bwriadedig.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

O weithlu'r Bwrdd Iechyd o oddeutu 2,150 o gyflogeion, dim ond 76 sydd wedi cwblhau offeryn hunanwerthuso gallu digidol rhyngweithiol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) fel rhan o'r Fframwaith Gallu Digidol.

Ers mis Mawrth 2025, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cael unrhyw ddigwyddiadau seiber adroddadwy fel a nodir yn Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018.

Canfu asesiad yn 2023 fod y Bwrdd Iechyd ar Gam 1 model EMRAM y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS), a oedd yn golygu bod systemau digidol craidd yn eu lle, ond bod aeddfedrwydd digidol ar y cyfan yn dal mewn cyfnod cynnar. Mae ei Fframwaith Strategol Digidol yn gosod uchelgais i gyrraedd cam 5 erbyn 2027.

Nodwyd fod cydymffurfiaeth ar y cyfan yn erbyn y Fframwaith Sicrwydd Seiber 'Heb Ei Chyflawni' ym mis Gorffennaf 2024.

Rhwng 2021-22 a 2024-25, buddsoddodd y Bwrdd Iechyd oddeutu £13.9 miliwn mewn refeniw digidol a £5.2 miliwn mewn cyfalaf digidol.

Rhwng 2025-26 a 2028-29, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld cyfanswm gwariant o oddeutu £17.8 miliwn ar refeniw digidol a £3.1 miliwn ar gyfalaf digidol.

# Ein canfyddiadau

## Strategaeth, cynllunio ac arweinyddiaeth

### Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ddigidol eglur, ond mae angen i adroddiadau ar gynnydd i'r Bwrdd ddarparu sicrwydd mwy eglur ynghylch ei chyflawni a'i heffaith

#### Strategaeth a chynlluniau digidol

9 Yn dilyn ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid ac aelodau'r Bwrdd, fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Strategol Digidol 2023-27 (y 'Fframwaith Strategol Digidol'), a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023. Mae'n pennu gweledigaeth eglur ar gyfer defnyddio offer digidol i wella iechyd a gofal, gan ganolbwyntio ar bum prif thema.[1] Fodd bynnag, wrth i 2027 nesáu, mae'n aneglur a yw'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu ac adnewyddu ei Fframwaith Strategol Digidol.

10 Mae'r Fframwaith Strategol Digidol yn cyd-fynd yn dda â Chynllun Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-29 ac yn cael ei gydnabod ac yn ffactor galluogi allweddol i gyflawni ei flaenoriaethau strategol. Mae'r Fframwaith Strategol Digidol hefyd yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys Cymru Iachach, a Strategaeth Data a Digidol Llywodraeth Cymru.

---

[1] Y pum thema yw: Gofal a Chymorth sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion; Arweinyddiaeth, Partneriaeth a Chynghreiriau; Seilwaith a Diogelwch; Galluogi Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd; a Data Mawr a Deallusrwydd Artiffisial.

11 Mae'r Fframwaith Strategol Digidol yn nodi trawsnewid digidol fel un o'r ffactorau galluogi allweddol ar gyfer gwella cynaliadwyedd ac ansawdd gwasanaethau a mynediad at ofal. Mae'n egluro sut y bydd digidol yn ategu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys mynediad mewn amser real at gofnodion cleifion a rennir, gallu gwell i ryngweithredu ar draws gwasanaethau, a mwy o ddefnydd o ddata i oleuo prosesau cynllunio a phenderfynu. Mae hefyd yn amlygu sut y bydd offer digidol megis ymgyngoriadau digidol, pyrth cleifion, a thechnolegau hunanreoli yn gwella profiad cleifion, yn ategu gofal yn nes at adref, ac yn helpu i reoli galw cynyddol.

12 Mae'r Fframwaith Strategol Digidol yn seiliedig ar aeddfedrwydd digidol y Bwrdd Iechyd, y canfu asesiad yn 2023 ei fod ar Gam 1 model EMRAM y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS), sy'n golygu bod systemau digidol craidd yn eu lle.[2] Ar ben hynny, fel rhan o ddatblygu ei Gynllun Integredig pum mlynedd, fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd ddadansoddiad PESTLE a SWOT a ddefnyddiwyd hefyd i ategu'r asesiad o aeddfedrwydd digidol y sefydliad.[3,4]

13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu Map Trywydd Digidol sy'n trosi'r Fframwaith Strategol Digidol yn weithredu ymarferol trwy nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cynnig rhagor o ymgyngoriadau rhithwir, symud systemau i'r cwmwl, a datblygu ffyrdd gwell o ddefnyddio data. Fodd bynnag, nid yw'r map trywydd yn cynnwys manylion cyfrifoldebau, targedau a llinellau amser manwl. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anos asesu cynnydd a gwybod a yw'r map trywydd yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig.

---

[2] Mae Cam 1 Model Mabwysiadu Cofnodion Meddygol Electronig (EMRAM) y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS) yn dynodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi gosod systemau ategol craidd ar gyfer labordai, fferylliaeth a radioleg.

[3] Mae dadansoddiad PESTLE yn archwilio'r prif ffactorau allanol (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol) a all ddylanwadu ar sefydliad.

[4] Cynhelir dadansoddiad SWOT i adnabod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau sefydliad.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Fframwaith Manteision hefyd i helpu i sicrhau bod prosiectau trawsnewid digidol a thrawsnewid gwasanaethau'n gysylltiedig ag amcanion strategol. Fodd bynnag, canfu adolygiad Archwilio Mewnol o Ddefnyddio Systemau Digidol ym mis Hydref 2025 nad yw'r fframwaith yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl brosiectau digidol eto. Er gwaethaf hyn, canfuom enghreifftiau o fanteision yn cael eu cyflawni ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno arnynt, megis arbedion o ran costau o ganlyniad i ymgyngoriadau rhithwir a gwelliannau i effeithlonrwydd o ganlyniad i foderneiddio systemau data. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i wreiddio prosesau tracio manteision ar draws yr holl raglenni a phrosiectau digidol a dangos gwerth am arian yn glir.

## Perchnogaeth y Bwrdd ar drawsnewid digidol

15 Mae'r Bwrdd yn dangos dealltwriaeth resymol am y Fframwaith Strategol Digidol a chefnogaeth resymol iddo. I gryfhau ymwybyddiaeth o risgiau digidol, cynhaliwyd Sesiynau Datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2025 a'r rheiny'n canolbwyntio ar seiberddiogelwch, gwasanaethau digidol a seilwaith digidol. Fodd bynnag, byddai mwy o addysg a chodi mwy o ymwybyddiaeth am ddigidol yn helpu aelodau'r Bwrdd i gyflawni swyddogaeth gryfach o ran herio, craffu a darparu arweinyddiaeth strategol wrth i'r Bwrdd Iechyd barhau â'i daith trawsnewid digidol.

16 Oherwydd oedi yn y broses recriwtio a oedd y tu hwnt i'w reolaeth, ar hyn o bryd nid oes gan y Bwrdd Iechyd Aelod Annibynnol dros Ddigidol. Gallai hyn fod yn lleihau proffil materion digidol ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwyddor Iechyd a Digidol yn mynychu cyfarfodydd perthnasol y Bwrdd a phwyllgorau. Ar ben hynny, mae'r Prif Swyddog Digidol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, yn ôl y gofyn.

17 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gynrychioli ar Rwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol Cymru Gyfan mwyach, rôl a gyflawnwyd gan yr Aelod Annibynnol dros Ddigidol blaenorol. Mae hyn yn lleihau cyfleoedd i rannu gwersi, cyfnewid arfer da, a chyfrannu at drafodaethau digidol cenedlaethol a allai ategu trawsnewid digidol y Bwrdd Iechyd ei hun.

### Rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

18 Ceir atebolrwydd eglur o fewn y Bwrdd Iechyd am gyflawni trawsnewid digidol, a ategir gan uwch rolau sydd wedi'u diffinio'n dda. Mae cyfrifoldeb gweithredol yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwyddor Iechyd a Digidol. Y Prif Swyddog Digidol sy'n goruchwylio'r modd y mae swyddogaethau digidol, data a thechnoleg y Bwrdd Iechyd yn cael eu cyflawni'n weithrediadol.

19 Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd gyda'r Fframwaith Strategol Digidol wrth y Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd Llywodraethu Digidol a'r Is-Bwyllgor Cyflawni a Pherfformiad. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn darparu goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd ar gyflawni'r Fframwaith Strategol Digidol ac yn uwchgyfeirio materion at y Bwrdd lle y bo'n ofynnol. Er bod adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn darparu trosolwg eglur o gynnydd, cerrig milltir a risgiau, maent yn aml yn brin o fanylder ynghylch gwireddu manteision a sut y bydd risgiau'n cael eu rheoli.

# Adnabod a rheoli risgiau

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i reoli risgiau digidol, ond mae'r rhain yn anghyson ac yn anghyflawn ac mae cyfle i'w cryfhau mewn meysydd allweddol

### Risgiau digidol strategol

20 Mae Cofrestr Risgiau Strategol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys un risg benodol sy'n ymwneud â digidol, gyda sgôr uchel o 15 – methiant seilwaith digidol a thrydanol yn peri risg i roi gofal. Mae'r risg yn cael ei hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a hynny mewn sesiynau preifat oherwydd ei natur sensitif a chyfrinachol. Er bod y Gofrestr Risgiau Strategol yn adnabod materion digidol allweddol yn briodol, maent yn canolbwyntio'n bennaf ar elfennau o'r risg sy'n ymwneud â'r rhwydwaith a'i helfennau trydanol a seiber.

21 Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cynnwys risg benodol sy'n ymwneud â thrawsnewid. Fodd bynnag, mae'n weddol eang ac nid yw'n nodi unrhyw faterion na risgiau penodol sy'n gysylltiedig â thrawsnewid digidol. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r Bwrdd Iechyd yn deall yn llawn beth yw'r problemau nac yn cynllunio'n llawn ar gyfer y problemau a allai effeithio ar gyflawni ei Fframwaith Strategol Digidol, megis oedi gyda phrosiectau allweddol neu heriau o ran adnoddau. Gall hyn ei gwneud hi'n anos i'r Bwrdd wneud penderfyniadau gwybodus, targedu adnoddau'n briodol, a dangos ei fod yn rheoli'r holl risgiau digidol strategol mewn ffordd eglur a thryloyw.

## Risgiau yn y seilwaith digidol

22 Mae'r Fframwaith Strategol Digidol yn adnabod "Seilwaith a Diogelwch" fel thema strategol graidd, gan ddangos pa mor bwysig yw moderneiddio systemau a'u cadw'n gryf ac yn ddibynadwy. Fodd bynnag, nid yw'n nodi llinellau amser na cherrig milltir eglur, na chynlluniau wedi'u costio, ar gyfer gwneud hynny.

23 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno polisïau ac offer newydd i wella sut y mae asedau digidol yn cael eu rheoli, gan gynnwys Polisi Rheoli Asedau Digidol, a'r offer Rheoli Gwasanaethau TG Halo. Mae'r rhain yn helpu i leihau risgiau megis colli data. Fodd bynnag, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym nad yw'r holl staff yn dilyn y polisïau'n gyson, felly mae angen rhagor o waith i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio'n iawn ar draws y sefydliad.

24 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran diweddaru dyfeisiau, gwella Wi-Fi, uwchraddio ceblau, a moderneiddio systemau ffôn. Mae'r uwchraddiadau hyn yn cael eu gwneud fesul cam, gan ddechrau â'r meysydd pwysicaf megis seiberddiogelwch trwy amnewid hen offer. Dengys hyn fod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i drwsio technoleg sydd wedi dyddio a gosod y sylfeini iawn ar gyfer trawsnewid digidol.

25 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael diweddariadau chwarterol am amnewid hen galedwedd a meddalwedd, a gaiff eu huwchgyfeirio at y Bwrdd pan fo angen. Fe wnaethom hefyd arsylwi ar sesiwn briffio'r Bwrdd a oedd yn canolbwyntio ar faterion digidol, ac a fynegodd yn eglur beth oedd yr heriau a'r cyfleoedd a oedd yn gysylltiedig â seilwaith digidol y Bwrdd Iechyd. Dangosodd y sesiwn ymgysylltu effeithiol gan y Bwrdd trwy herio a thrafod adeiladol.

26 Mae cynllunio ariannol ar gyfer uwchraddio seilwaith yn y tymor hwy yn faes arall sy'n achosi pryder. Er bod prosiectau byrdymor yn cael eu cyflawni (gweler **paragraff 25**), mae diffyg cynllun cyfalaf hirdymor yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau buddsoddi cynaliadwy a bod anghenion ar gyfer y dyfodol yn cael eu blaenoriaethu. Mae hyn yn creu ansicrwydd ynghylch y gallu i gynnal a chadw seilwaith modern y tu hwnt i'r cylch cynllunio cyfredol.

## Seibergadernid

27 Er bod seibergadernid yn un o elfennau craidd y Fframwaith Strategol Digidol, nid oes gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Cyflawni Seiberddiogelwch ar wahân. Byddai bod â chynllun cyflawni ar wahân ar gyfer seiberddiogelwch yn cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i gynllunio'n briodol a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol.

28 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio risgiau i seiberddiogelwch, a gynhwysir yn y cofrestrau risgiau corfforaethol a strategol. Mae rheolaethau yn eu lle i wella seibergadernid, megis gwneud y rhwydwaith yn fwy dibynadwy, cael gwared ar hen feddalwedd, ac archwiliadau rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o reolaethau'r Bwrdd Iechyd yn darparu sicrwydd rhesymol neu sylweddol.

29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal perthynas weithio effeithiol â'r Uned Seibergadernid ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), gan ddefnyddio eu canllawiau a'u harbenigedd hwy i ategu seibergadernid. Yn 2024, rhoddodd yr Uned Seibergadernid sgôr sicrwydd 'Heb Ei Chyflawni' i gydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â'r Fframwaith Asesu Seiber. Roedd hyn yn adlewyrchu oedi wrth ddatblygu Ymateb i Adfer Systemau Digidol ar ôl Trychineb Seiber. Fe wnaeth yr Uned Seibergadernid hefyd argymell hyfforddiant seiber uwch a pharhaus ar gyfer uwch arweinwyr, yn ychwanegol at hyfforddiant gorfodol, i gryfhau cadernid. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau seiber adroddadwy yn y Bwrdd Iechyd yn y 12 mis diwethaf.

## Deallusrwydd artiffisial

30 Mae Fframwaith Strategol Digidol y Bwrdd Iechyd yn cydnabod y potensial i ddeallusrwydd artiffisial (AI) ategu ei uchelgeisiau digidol, ond nid yw'n nodi'n glir pa wasanaethau y disgwylir iddynt gael budd o AI, pryd allai datrysiadau AI gael eu rhoi ar waith, na pha ddeilliannau a ddisgwylir o ganlyniad i ddefnyddio AI. O ganlyniad, mae AI yn dal i fod yn ddyhead lefel uchel yn hytrach nag yn rhaglen wedi'i diffinio'n glir a chanddi fanteision mesuradwy.

31 Hefyd nid yw'r fframwaith yn glir ynghylch yr adnoddau sy'n ofynnol i ddatblygu a defnyddio AI. Nid yw'n manylu ar y cyllid, capasiti'r gweithlu, sgiliau, na'r offer technegol y mae eu hangen, nac yn egluro sut y bydd risgiau sy'n gysylltiedig ag AI yn cael eu hadnabod a'u rheoli. Er bod y Fframwaith Strategol Digidol yn cyfeirio at sylfeini galluogol, megis platfformau data diogel a gallu gwell i ryngweithredu, nid yw hyn yn darparu digon o sicrwydd i'r Bwrdd y cynllunnir yn ddigonol ar gyfer risgiau AI ac yr ymdrinnir yn ddigonol â hwy.

32 Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer AI heb ddatblygu digon. Er bod gan y Bwrdd Llywodraethu Digidol rôl o ran cymeradwyo offer AI, nid oes fframwaith eglur sy'n nodi trefniadau atebolrwydd, gwneud penderfyniadau nac uwchgyfeirio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau datblygu polisïau i reoli risgiau AI, ond nid yw'r rhain yn gyflawn eto ac nid ydynt yn benodol i AI. Mae hyn yn creu bylchau mewn goruchwyliaeth, yn enwedig gan bod gan staff eisoes fynediad at offer AI cynhyrchiol trwy Microsoft 365, sy'n cyflwyno risgiau posibl o ran diogelwch data a llywodraethu gwybodaeth.

# Sgiliau digidol

## Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth gynhwysfawr am sgiliau digidol ac mae'n wynebu heriau sylweddol o ran capasiti a chydnerthedd y gweithlu, sy'n cyfyngu ar ei allu i gynllunio, goruchwylio a datblygu sefydliad sy'n gwbl alluog yn ddigidol

### Asesu sgiliau digidol

33 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth lawn eto am sgiliau digidol ar draws ei weithlu. O ran y sefyllfa ym mis Hydref 2025, dim ond 76 o gyflogeion oedd wedi cwblhau offeryn hunanwerthuso Fframwaith Gallu Digidol AaGIC. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran eu bod naill ai'n hyderus neu'n dal i ddysgu.

34 Y tu hwnt i Fframwaith Gallu Digidol AaGIC, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal rhai gwiriadau wedi'u targedu i weld a yw staff yn barod ar gyfer systemau digidol newydd. Mae'r gwiriadau hyn o gymorth ar gyfer prosiectau unigol, ond dim ond grwpiau bychain o staff y maent yn eu cwmpasu ac nid ydynt yn disodli'r angen am asesiad llawn o sgiliau digidol ar draws y sefydliad cyfan.

### Datblygu sgiliau digidol

35 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi gweledigaeth eglur ar gyfer sut y mae gweithlu a alluogir yn ddigidol yn edrych o fewn ei Fframwaith Strategol Digidol; fodd bynnag, nid oes ganddo gynllun hyfforddi wedi'i ffurfioli ar gyfer uwchsgilio, gwella llythrennedd digidol, a chreu diwylliant 'Digidol yn Gyntaf'.

36 Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnig peth cymorth i helpu staff i wella eu sgiliau digidol a'u gwybodaeth ddigidol. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant rheolaidd ar seiberddiogelwch a diogelu data ar gyfer yr holl staff a "Diwrnodau Digidol" lle gall staff gael help wyneb-yn-wyneb gan y Tîm Digidol. Mae ar y Bwrdd Iechyd eisiau dod â mwy o arbenigwyr clinigol i mewn i dimau digidol, cynyddu nifer yr hyrwyddwyr digidol a datblygu strategaeth hyfforddiant gyda phartneriaid allweddol hefyd. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau hyn yn anodd i'w cyflawni am bod y timau digidol yn fach ac nad oes digon o arbenigwyr, yn enwedig mewn meysydd â galw uchel fel seiberddiogelwch.

37 Mae Tîm Digidol y Bwrdd Iechyd yn gweithredu â threfniadau staffio cyfyngedig ar hyn o bryd, gyda rhai swyddogaethau'n ddibynnol ar un arbenigwr. Mae hyn yn gadael y Bwrdd Iechyd yn agored i risgiau o ran cadernid ac yn cyfyngu ar ei allu i wneud gwaith rhagweithiol. Mae'r ddibyniaeth ar gylchoedd cyllido blynyddol yn ei gwneud yn her i'r Tîm Digidol gynllunio dros y tymor canolig, gan arwain at gontractau tymor byr, heriau o ran cadw staff, ac anhawster meithrin gallu.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r risgiau sylweddol o ran y gweithlu sy'n gysylltiedig â digidol, megis yr anallu i recriwtio a chadw staff arbenigol. Fodd bynnag, nid yw'r risgiau hyn yn cael eu tracio na'u hadolygu ar lefel y Bwrdd. O ganlyniad, nid oes gan y Bwrdd ddarlun llawn o faint y broblem ac nid yw'n gallu herio na chefnogi'r sefydliad yn briodol i wneud gwelliannau. Mae'r diffyg goruchwyliaeth yma hefyd yn ei gwneud hi'n anos rheoli risgiau hirdymor o ran y gweithlu mewn modd effeithiol.

# Cydweithio a chynnwys

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â staff a defnyddwyr gwasanaethau, ond mae ei ddull yn anghyson ac yn ddi-strwythur, ac nid oes ganddo gynllun eglur ar gyfer mynd i'r afael ag allgau digidol

### Cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau

39 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos dull cadarnhaol o gynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio a gweithredu systemau digidol; fodd bynnag, mae diffyg proses wedi'i dogfennu ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu'n cyfyngu ar gysondeb ac effaith. Nid yw gweithgarwch ymgysylltu'n cael ei gydlynu'n dda ar draws rhaglenni ac mae'n dal i fod yn weithgarwch ad hoc gan mwyaf. Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd yn cael sicrwydd rheolaidd bod adborth yn cael ei gasglu, y gweithredir arno, na'i fod yn cael ei ddefnyddio i oleuo prosesau penderfynu.

40 Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd Fodel Gweithredu Targed newydd ar gyfer Gwasanaethau Digidol yn 2024, ar ôl rhoi diwedd ar ei drefniant TGCh ar y cyd gyda Chyngor Sir Powys. Mae'r model newydd hwn yn gwneud staff a defnyddwyr gwasanaethau'n ganolog i'r modd y caiff gwasanaethau digidol eu dylunio a'u darparu gyda ffocws cryf ar ymgysylltu a phrofiad defnyddwyr. Er enghraifft, mae 'Diwrnodau Digidol' ar y safle'n cael eu darparu trwy gydol y flwyddyn ar bob un o safleoedd y Bwrdd Iechyd i gefnogi gwasanaethau ac ymgysylltu â hwy yn uniongyrchol. Roedd hwn yn gam pwysig i'r sefydliad, gan ei fod yn rhoi rheolaeth lawn i'r Bwrdd Iechyd ar ei strategaeth ddigidol, sut y darperir gwasanaethau, a pha mor dda y maent yn perfformio.

41 Mae cynnwys defnyddwyr wedi helpu i wella gwasanaethau digidol a goleuo prosesau penderfynu. Mae gwelliannau mewn Wi-Fi Gwesteion ar draws yr holl safleoedd yn dilyn adborth gan gleifion wedi arwain at effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion, yn enwedig cleifion mewnol iechyd meddwl. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau'n dal i fod yn anuniongyrchol yn bennaf, gan gael ei hidlo fel arfer trwy storïau staff yn hytrach nag ymgysylltu ac ymgynghori uniongyrchol. Golyga hyn nad yw'r Bwrdd Iechyd wastad yn clywed profiadau pobl o lygad y ffynnon, sy'n gallu cyfyngu ar ei ddealltwriaeth am ba mor dda y mae gwasanaethau digidol yn diwallu eu hanghenion.

## Lleihau allgau digidol

42 Mae Fframwaith Strategol Digidol y Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i atal allgau digidol ac yn cynnwys ymrwymiad i fynediad cynhwysol trwy sicrhau bod y sefydliad yn ymrwymo i'r Siarter Cynhwysiant Digidol.[5] Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Cynhwysiant Digidol wedi'i ddogfennu'n ffurfiol nac wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd sy'n nodi'n glir pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd i gynyddu'r niferoedd sy'n gwella eu cymhwysedd digidol a lleihau allgau digidol. Nid yw wedi penodi Arweinydd Cynhwysiant Digidol pwrpasol ychwaith.

43 Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn dod yn fwy ymwybodol o risgiau allgau digidol, yn enwedig i bobl mewn ardaloedd gwledig a grwpiau hŷn neu agored i niwed. Mae'n defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac offer tebyg i ystyried sut y mae prosiectau digidol yn effeithio ar y grwpiau hyn, ond mae'r dull hwn yn dal i ddatblygu ac nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan bob prosiect. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio gyda phartneriaid fel AaGIC, Cwmpas a mudiadau gwirfoddol i helpu i adnabod rhwystrau posibl i fynediad digidol.[6]

---

[5] Mae'r Siarter Cynhwysiant Digidol yn bodoli i gefnogi a hyrwyddo sefydliadau yng Nghymru sy'n fodlon hybu sgiliau digidol sylfaenol a helpu pobl i fynd ar-lein.

[6] Cwmni cydweithredol yw Cwmpas sy'n cefnogi ac yn hybu cynhwysiant digidol ledled Cymru trwy nifer o fentrau.

# Defnyddio datblygiadau digidol i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn canlyn arni â datrysiadau digidol lleol a chenedlaethol, ond ceir risg y bydd ansicrwydd ynghylch cyllid yn arafu'r cynnydd, ac mae angen gwerthuso cryfach i ddeall a yw buddsoddiadau digidol yn cael effaith ystyrlon

### Buddsoddi mewn trawsnewid digidol

44 Nid yw'r Fframwaith Strategol Digidol yn nodi'r union gyllid y mae ei angen ar gyfer pob cam ym Map Trywydd Digidol y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cynllunio'n glir pa brosiectau sy'n fforddiadwy na blaenoriaethu adnoddau'n effeithiol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei bod hi'n anodd ymdrin â hyn oherwydd natur fyrdymor cylchoedd cyllido.

45 Mae **Arddangosion 1** a **2** yn dangos bod buddsoddiad digidol y Bwrdd Iechyd ar y cyfan yn codi, yn bennaf oherwydd costau refeniw cynyddol. Mae cyllid cyfalaf yn dal i fod yn isel ac mae'n llawer mwy anrhagweladwy. Er bod buddsoddiad cynyddol yn dangos ymrwymiad i foderneiddio digidol, mae'r anghydbwysedd rhwng cyfalaf a refeniw, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch cyfleoedd buddsoddi hirdymor, yn creu risgiau ar gyfer gwireddu uchelgeisiau digidol y Bwrdd Iechyd.

### Arddangosyn 1: Buddsoddiad cyfalaf a refeniw blynyddol mewn digidol (rhwng 2021-22 a 2024-25), wedi'i rannu yn ôl cyllid craidd a grantiau

| Blwyddyn Ariannol | Cyllideb Gyfalaf £m | Gwariant Cyfalaf £m | Cyllideb Refeniw £m | Gwariant Refeniw £m |
|---|---|---|---|---|
| 2021-22 | £1.9 | £1.9 | £2.1 | £2.7 |
| 2022-23 | £0.7 | £0.7 | £3.1 | £3.2 |
| 2023-24 | £1.2 | £1.2 | £3.3 | £3.5 |
| 2024-25 | £1.4 | £1.4 | £4.2 | £4.4 |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd

### Arddangosyn 2: Lefelau arfaethedig buddsoddiad cyfalaf a refeniw mewn digidol (rhwng 2025-26 a 2027-28)

| Blwyddyn Ariannol | Cyfalaf £m | Refeniw £m |
|---|---|---|
| 2025-26 | £0.7 | £4.3 |
| 2026-27 | £0.7 | £4.4 |
| 2027-28 | £0.9 | £4.5 |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd

## Prosiectau digidol lleol a rhanbarthol

46 Mae’r Bwrdd Iechyd yn canlyn arni ag ystod o raglenni digidol lleol sy’n ategu ei nodau i wella mynediad, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu gwasanaeth teleffoni digidol, sydd wedi gwella amseroedd ymateb ar gyfer darparu gwasanaethau gweithrediadol yn ôl y Bwrdd Iechyd. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu ei alluoedd datblygu cymwysiadau mewnol sydd wedi arwain at ddatblygu 12 o gymwysiadau newydd i wella effeithlonrwydd, megis DigiFlow a Silvercloud. I dracio gwelliannau i effeithlonrwydd, mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu 33 o ddangosfyrddau newydd yn 2025-26 ac wedi mudo 409 o ddangosfyrddau eraill i’r cwmwl, gan wella diogelwch a hygyrchedd data.

47 Y Tîm Rheoli Prosiectau Digidol sydd â goruchwyliaeth ar gyflawni o ddydd i ddydd, tra bo’r Bwrdd Cynghori ar Newid a’r Bwrdd Clinigol Llywodraethu Digidol yn defnyddio’r dull MoSCoW i asesu pa brosiectau ddylid eu blaenoriaethu.[7] Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod cydbwysedd yn cael ei daro rhwng gwaith hanfodol, megis seiberddiogelwch ac amnewid systemau sydd wedi dyddio, a mentrau digidol tymor hwy. Cyflwynir diweddariadau chwarterol am gyflawni prosiectau a darparu gwasanaethau digidol i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer sicrwydd.

48 Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn cydweithio’n agos gyda phartneriaid rhanbarthol i gyflawni ei Fframwaith Strategol Digidol. Mae ei ymwneud â grwpiau statudol, megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn rhoi mwy byth o gyfle i fynd i’r afael â heriau cyffredin, cefnogi cynllunio ar y cyd, a lleihau dyblygu. Fodd bynnag, fe fethon ni â chanfod tystiolaeth o unrhyw fentrau digidol rhanbarthol yn adroddiadau digidol y Bwrdd Iechyd. Er bod y partneriaethau hyn yn cael eu hystyried yn gryfder, dywedodd y Bwrdd Iechyd fod cyfyngiadau sylweddol i’w cael o ran adnoddau, sy’n gallu cyfyngu ar raddfa ac effaith mentrau digidol ar y cyd.

[7] Techneg ar gyfer blaenoriaethu prosiectau digidol yw’r dull MoSCoW, lle mae’r acronym yn golygu ‘Must have’, ‘Should have’, ‘Could have’, a ‘Won’t have’.

## Mabwysiadu systemau digidol cenedlaethol

49 Mae’r Bwrdd Iechyd wrthi’n frwd yn mabwysiadu datrysiadau digidol cenedlaethol fel rhan o’r dull ‘Unwaith i Gymru’ ac yn cydweithio mewn modd adeiladol gydag IGDC a Llywodraeth Cymru. Mae uwch arweinwyr yn cymryd rhan mewn fforymau digidol cenedlaethol i wneud yn siŵr bod anghenion Powys yn cael eu clywed a bod cynlluniau lleol yn cyfateb i ddatblygiadau cenedlaethol. Mae’r Bwrdd Iechyd yn rhan o brosiectau digidol mawr fel WCCIS, Mamolaeth Ddigidol Cymru, y Rhaglen Gofal Llygaid Digidol, Ap GIG Cymru, Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, a systemau diagnosteg megis RISP a LIMS.[8,9,10]

50 Mae Adroddiadau Monitro Digidol yn Gyntaf chwarterol i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dangos bod oedi gyda rhaglenni digidol cenedlaethol yn dal i fod yn sylweddol. Mae’r oedi yma’n cyfyngu ar allu’r Bwrdd Iechyd i reoli risgiau digidol ac yn arafu ei gynlluniau trawsnewid digidol ehangach. Mae’r adroddiadau’n amlygu oedi mewn rhaglenni cenedlaethol allweddol, gan gynnwys ePMA a’r Rhaglen Gofal Llygaid Digidol. Mae oedi gyda phrosiect trawsffiniol a gyflawnir ar y cyd gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi effeithio ar gynnydd hefyd, gan olygu bod y gallu i ryngweithredu’n dal i fod yn broblem sylweddol. Mae nifer o achosion o oedi y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd ac yn dibynnu ar bartneriaid cenedlaethol, gan olygu bod cynnydd gyda moderneiddio digidol a thrawsnewid digidol ehangach yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflawni rhaglenni cenedlaethol.

---

[8] System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
[9] Caffael System Wybodeg ar gyfer Radioleg
[10] System Rheoli Gwybodaeth Labordai

## Gwerthuso datrysiadau digidol

51 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cryf na chyson eto i adolygu prosiectau ar ôl iddynt gael eu cwblhau neu i wirio a yw'r manteision disgwyliedig wedi cael eu cyflawni. Fel a nodwyd yn flaenorol, dim ond sicrwydd cyfyngedig a roddodd gwaith Archwilio Mewnol diweddar yn y maes hwn. Mae'r diffyg adolygiadau rheolaidd ar ôl gweithredu'n ei gwneud hi'n anos i'r Bwrdd Iechyd ddysgu o brofiad, mesur effaith wirioneddol prosiectau digidol, a dangos a yw'r buddsoddiad yn werth chweil. Heb broses werthuso fwy strwythuredig, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn gwbl hyderus bod ei newidiadau digidol yn arwain at welliannau ystyrlon a hirhoedlog.

# Argymhellion

52 Mae’r tabl canlynol yn nodi’r argymhellion sy’n codi o’n gwaith.

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai’r Bwrdd Iechyd nodi’n glir beth yw’r cyfrifoldebau, y cerrig milltir a’r mesurau ar gyfer pob prosiect yn y Map Trywydd Digidol fel bod cynnydd a deilliannau’n gallu cael eu monitro’n iawn (gweler **paragraff 13**). |
| **A2** | Dylai’r Bwrdd Iechyd gryfhau ei Gofrestr Risgiau Strategol trwy adnabod a mynegi’n glir beth yw’r risgiau sy’n gysylltiedig â thrawsnewid digidol, gan gynnwys risgiau sy’n gysylltiedig â chyflawni, capasiti ac adnoddau (gweler **paragraff 21**). |
| **A3** | Dylai’r Bwrdd Iechyd gynhyrchu Cynllun Cyflawni Seiberddiogelwch blynyddol sy’n nodi sut y mae’n bwriadu cydymffurfio â Fframwaith Asesu Seiber Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 (gweler **paragraff 27**). |

**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli risgiau sy'n ymwneud â Deallusrwydd Artiffisial trwy:

**A4.1** datblygu cynllun sefydliadol eglur ar gyfer defnyddio AI yn ddiogel ac yn effeithiol;

**A4.2** cryfhau trefniadau ar gyfer adnabod, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag AI; ac

**A4.3** sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle fel bod AI yn cael ei roi ar waith a'i ddefnyddio'n ddiogel, yn briodol ac yn unol â pholisïau y cytunwyd arnynt (gweler **paragraffau 30 i 32**).

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o ddeall a datblygu sgiliau digidol yn y gweithlu trwy:

**A5.1** cynyddu cyfranogiad yn hunanasesiad Fframwaith Gallu Digidol AaGIC;

**A5.2** creu cynllun eglur ar gyfer mesur hyder digidol a monitro cynnydd dros amser; ac

**A5.3** asesu galluoedd digidol technegol o fewn y tîm digidol craidd (gweler **paragraffau 33 i 38**).

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau arweinyddiaeth ar gyfer cynhwysiant digidol a datblygu cynllun cynhwysiant digidol (gweler **paragraff 42**).

**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno proses gyson ar gyfer adolygu ar ôl gweithredu i asesu a wnaeth prosiectau digidol gyflawni eu manteision bwriadedig (gweler **paragraff 51**).

# Atodiadau

# 1 Ymateb y rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir beth yw'r cyfrifoldebau, y cerrig milltir a'r mesurau ar gyfer pob prosiect yn y Map Trywydd Digidol fel bod cynnydd a deilliannau'n gallu cael eu monitro'n iawn (gweler **paragraff 13**). | Wedi'i dderbyn:<br>Rydym yn cytuno y bydd y Fframwaith Strategol Digidol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru cyn 2027. Adlewyrchir y bwriad hwn yn ein cylch Cynllunio Integredig a bydd yn cael ei egluro'n benodol mewn adroddiadau digidol yn y dyfodol. Mae "Map Trywydd Digidol ar Dudalen" newydd wrthi'n cael ei ddatblygu, a hwnnw'n nodi aliniad strategol, rhaglenni sy'n flaenoriaeth, perchnogaeth, cerrig milltir, dibyniaethau, risgiau a deilliannau disgwyliedig. | Awst 2026 | Prif Swyddog Data Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei Gofrestr Risgiau Strategol trwy adnabod a mynegi'n glir beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid digidol, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni, capasiti ac adnoddau (gweler **paragraff 21**). | Wedi'i dderbyn:<br>Rydym yn cytuno bod angen i risgiau digidol gael eu mynegi'n fwy eglur ar lefel gorfforaethol. Mae'r risgiau hyn wedi cael eu hadolygu gyda chydweithwyr Gweithredol a'u cyflwyno i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gyda pherchnogaeth eglur, camau lliniaru ac adroddiadau trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd ochr yn ochr â risgiau cyfarwyddiaethau gweithrediadol. | Gorffennaf 2026 | Prif Swyddog Data Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu Cynllun Cyflawni Seiberddiogelwch blynyddol sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â Fframwaith Asesu Seiber Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 (gweler **paragraff 27**). | Wedi'i dderbyn:<br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu Cynllun Cyflawni Seiberddiogelwch blynyddol cymesur sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) a'r Fframwaith Asesu Seiber.<br>Bydd y cynllun yn nodi camau gweithredu sy'n flaenoriaeth, rheolaethau, gweithgarwch sicrwydd, dibyniaethau a therfynau amser, gan gydnabod maint y Bwrdd Iechyd, ei broffil risg a'r capasiti arbenigol sydd ar gael iddo. | Hydref 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Digidol, Data a Thechnoleg ac Uwch Arbenigwr Seiberddiogelwch |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli risgiau sy'n ymwneud â Deallusrwydd Artiffisial trwy: | Wedi'i dderbyn:<br>Rydym yn cydnabod bod trefniadau llywodraethu ar gyfer AI heb ddatblygu digon. Mewn ymateb i: | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau Digidol a Data |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | **A4.1** datblygu cynllun sefydliadol eglur ar gyfer defnyddio AI yn ddiogel ac yn effeithiol;<br><br>**A4.2** cryfhau trefniadau ar gyfer adnabod, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag AI; ac<br><br>**A4.3** sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle fel bod AI yn cael ei roi ar waith a'i ddefnyddio'n ddiogel, yn briodol ac yn unol â pholisïau y cytunwyd arnynt (gweler **paragraffau 30 i 32**). | **A4.1**, ceir polisi AI drafft sy'n barod i'w gyflwyno i gael ei gymeradwyo. Unwaith y caiff ei gymeradwyo bydd hwn yn cael ei ategu gan Weithdrefn Weithredu Safonol<br><br>**A4.2** ceir eisoes broses trwy'r Grŵp Mentrau Digidol. Dim ond y rhai yr ydym yn ymwybodol ohonynt y mae hwn yn gallu eu monitro.<br><br>**A4.3** Bydd hyn yn cael ei ategu gan Weithdrefn Weithredu Safonol a chyfathrebiad at yr holl staff i ddilyn y broses. Byddir yn ymchwilio i ddull o archwilio defnydd priodol o AI o fewn y cyd-destun. | | Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth<br><br>CNIO a SIRO |
| **A5** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o ddeall a datblygu sgiliau digidol yn y gweithlu trwy: | Wedi'i dderbyn:<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn gofyn i AaGIC gefnogi â chynllun eglur i gryfhau ein | Mawrth 2028 | Prif Swyddog Data Digidol, EDWOD |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | **A5.1** cynyddu cyfranogiad yn hunanasesiad Fframwaith Gallu Digidol AaGIC;<br><br>**A5.2** creu cynllun eglur ar gyfer mesur hyder digidol a monitro cynnydd dros amser; ac<br><br>**A5.3** asesu galluoedd digidol technegol o fewn y tîm digidol craidd (gweler **paragraffau 33 i 38**). | dull o ddeall a datblygu sgiliau digidol yn y gweithlu.<br><br>Mewn ymateb i A5.1, Byddwn yn hyrwyddo hunanasesiad Fframwaith Gallu Digidol AaGIC trwy ymgysylltu â staff a sesiynau briffio i staff.<br><br>Mewn ymateb i A5.2, byddwn yn datblygu cynllun sy'n cael ei fireinio bob yn dipyn i fesur hyder Digidol gan ddefnyddio arolygon fel rhan o bob gweithrediad/gwerthusiad digidol yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br><br>Mewn ymateb i R5.3, bydd Digidol yn asesu risgiau i allu a chapasiti technegol yn y Tîm Digidol craidd ac yn cytuno ar gamau datblygu, y byddir yn adrodd arnynt trwy drefniadau llywodraethu sefydledig. Bydd hyn yn gymesur â chapasiti sefydliadol a chyfyngiadau ariannol. | Mae'r argymhelliad hwn yn galw am ymgysylltu a newid ymddygiad sefydliad cyfan parhaus ar draws gweithlu sy'n bennaf yn un gwasgaredig, amlbroffesiwn, ochr yn ochr â chytundeb gyda phartneriaid allanol (AaGIC) ynghylch y dull a'r mesurau. Bydd cyflawni'n digwydd bob yn dipyn i gyd-fynd â chylch y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gweithrediadau digidol mawr er mwyn i ni allu pennu'r llinell sylfaen o ran gallu, cynyddu cyfranogiad | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | | yn hunanasesiad AaGIC, gweithredu mesuriadau ailadroddus, a dangos tystiolaeth o wella dros amser o fewn y capasiti sydd ar gael a'r cyfyngiadau ariannol. | |
| **A6** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau arweinyddiaeth ar gyfer cynhwysiant digidol a datblygu cynllun cynhwysiant digidol (gweler **paragraff 42**). | Wedi'i dderbyn:<br><br>Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn a byddwn yn amcanu at gael cymorth gan aelodau Annibynnol ein Bwrdd. Mae gennym eisoes oruchwyliaeth Weithredol gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwyddor Iechyd a Digidol.<br><br>Bydd cynllun yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad gydag AaGIC, Tîm | Mawrth 2028<br><br>Mae datblygu a gwreiddio arweinyddiaeth effeithiol a chynllun ar gyfer cynhwysiant digidol yn galw am gydgynhyrchu gyda rhanddeiliaid lluosog | Prif Swyddog Data Digidol, CNIO, Rheolwr Busnes Gwasanaeth Byw'n Dda Powys (PLWS) |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, y Gwasanaeth Byw'n Dda a'r Tîm Gwybodeg Glinigol. | (gan gynnwys Tîm Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Gwasanaeth Byw'n Dda Powys, y Tîm Gwybodeg Glinigol ac AaGIC), ymgysylltu â chymunedau ac aliniad â gweithgarwch cynhwysiant digidol cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r ffrâm amser estynedig yn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith darganfod ac asesu anghenion, cytuno ar drefniadau llywodraethu a pherchnogaeth, dylunio ymyriadau | |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | | wedi'u targedu, a gwerthuso effaith ar draws nifer o gylchoedd cynllunio, gan gydnabod capasiti sefydliadol sydd dan bwysau a blaenoriaethau trawsnewid sy'n cystadlu â'i gilydd. | |
| **A7** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno proses gyson ar gyfer adolygu ar ôl gweithredu i asesu a wnaeth prosiectau digidol gyflawni eu manteision bwriadedig (gweler **paragraff 51**). | Wedi'i dderbyn:<br><br>Rydym yn derbyn ac yn cydnabod yr angen i gymhwyso'r Fframwaith Manteision yn fwy cyson wrth i brosiectau fynd yn fyw a dod i ben. Bydd y Fframwaith Manteision yn cael ei addasu i gynnwys profiad defnyddwyr i fynd ati'n rheolaidd i asesu a mesur a | Mawrth 2027 | Prif Swyddog Data Digidol/Pennaeth Rhaglenni Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | yw'r prosiectau digidol yn cyflawni'r manteision bwriadedig. | | |

# 2 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw canfod a yw’r Bwrdd Iechyd yn defnyddio technoleg ddigidol i roi cymorth i foderneiddio gwasanaethau ac ategu eu heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol, a sut y mae risgiau o ran y seilwaith digidol, seibergadernid a deallusrwydd artiffisial yn cael eu rheoli.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â’r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Bwrdd Iechyd ddull trawsnewid digidol a arweinir yn dda ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer?
- A yw’r Bwrdd Iechyd yn datblygu sgiliau, capasiti, a gallu digidol ei weithlu?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun eglur ar gyfer rheoli ei drefniadau seibergadernid a’i seilwaith digidol a sut y bydd angen iddynt newid i ategu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol?
- A yw’r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu’n effeithiol â staff, partneriaid, cleifion / defnyddwyr gwasanaethau i wireddu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol a lleihau i’r eithaf risgiau o allgau digidol?
- A yw’r Bwrdd Iechyd wrthi’n frwd yn defnyddio technoleg ddigidol a datrysiadau data newydd i wella hygyrchedd, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei wasanaethau?

## Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- Fewnbwn cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol y GIG Cymru Gyfan, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Strategaethau a chynlluniau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.
- Adroddiadau adolygu perthnasol ar Drawsnewid Digidol yn y GIG a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin.
- Papur polisi Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG yn Lloegr: A plan for digital health and social care.
- Fframwaith Cyfarwyddiaeth Drawsnewid y GIG yn Lloegr: What good looks like.

# Dulliau

Fe ofynnom ni i'r Bwrdd Iechyd:

- Gwblhau hunanasesiad i'n helpu i ddeall sut y mae'r sefydliad yn cyflawni trawsnewid digidol.
- Rhoi ffeithiau a ffigyrau i ni am ei wariant ar dechnoleg ddigidol, sgiliau digidol ei staff, ei seibergadernid, a sut y mae'n cynnwys pobl mewn trawsnewid digidol.

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Adroddiadau Monitro Chwarterol Digidol yn Gyntaf ac Adroddiadau Blynyddol ar Ddigidol.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys Strategaeth Fframwaith Strategol Digidol yn Gyntaf, y Strategaeth Pobl, Cynllun Integredig a Blynyddol y Bwrdd Iechyd, a'i Strategaeth Iechyd a Gofal 2017-2027.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Strategol.
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cadeirydd y Bwrdd
- Prif Weithredwr
- Prif Swyddog Digidol
- Prif Swyddog Gweithredu
- Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwyddor Iechyd a Digidol

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad (y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad bellach)
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Sesiwn Briffio'r Bwrdd ar Ddigidol

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru’n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n gorff a sefydlwyd i gefnogi’r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw’r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.